Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Corea

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

19 Chwefror 2014

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Chwefror, pan ofynnoch:

> *Rydym yn ceisio darganfod faint o ddiddordeb a chysylltiad sydd rhwng Llywodraeth Cymru a Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Corea (DPRK). Byddem felly yn hoffi cael gwybodaeth am y canlynol mewn perthynas â'r Cynulliad presennol:*
>
> 1. *Unrhyw ddatganiadau a dadleuon, naill ai yn y Cynulliad neu mewn pwyllgorau, yn ymwneud â Gogledd Corea ac, yn benodol, sgyrsiau'n ymwneud â'r sefyllfa Hawliau Dynol yng Ngogledd Korea.*
> 2. *Enwau'r Aelodau a gymerodd ran yn y dadleuon a'r datganiadau uchod*
> 3. *A oes unrhyw Aelodau neu unrhyw un o Weinidogion Cymru wedi bod yn rhan o ddirprwyaeth neu ymweliad swyddogol â Gogledd Corea?*
> 4. *Os oes, hoffwn ddyddiad yr ymweliadau ac enwau'r Aelodau a'r Gweinidogion dan sylw*
> 5. *A oes unrhyw swyddog o'r DPRK, neu lysgenhadaeth y DPRK yn Llundain, wedi ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol?*
>    *Os ydynt, hoffwn ddyddiad yr ymweliad, a hoffwn wybod a siaradodd y swyddog neu'r llysgennad â'r Cynulliad neu ag un o'r Pwyllgorau.*

1. *Unrhyw ddatganiadau a dadleuon, naill ai yn y Cynulliad neu mewn pwyllgorau, yn ymwneud â Gogledd Corea ac, yn benodol, sgyrsiau'n ymwneud â'r sefyllfa Hawliau Dynol yng Ngogledd Corea.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Rydym wedi chwilio drwy [Gofnod y Trafodion] a [thrawsgrifiadau'r pwyllgorau] ond nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n ymwneud â'ch cais.

2. *Enwau'r Aelodau a gymerodd ran yn y dadleuon a'r datganiadau uchod*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1.

3. *A oes unrhyw Aelodau neu unrhyw un o Weinidogion Cymru wedi bod yn rhan o ddirprwyaeth neu ymweliad swyddogol â Gogledd Corea?*

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn rhan o ddirprwyaethau neu ymweliadau swyddogol â Gogledd Corea.

4. *Os oes, hoffwn ddyddiad yr ymweliadau ac enwau'r Aelodau a'r Gweinidogion dan sylw*

Gweler yr ateb i gwestiwn 3.

5. *A oes unrhyw swyddog o'r DPRK, neu lysgenhadaeth y DPRK yn Llundain, wedi ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol*

Nid oes unrhyw swyddog o'r DPRK, neu lysgenhadaeth y DPRK yn Llundain, wedi ymweld â'r Cynulliad Cenedlaethol .

6. *Os oes, hoffwn ddyddiad yr ymweliad, a hoffwn wybod a siaradodd y swyddog neu'r llysgennad â'r Cynulliad neu ag un o'r Pwyllgorau.*

Gweler yr ateb i gwestiwn 5.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF